

Gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg 2021

Dadansoddiad o sylwadau testun agored



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1. Baich gwaith

Themâu cyffredinol o'r sylwadau testun agored awgrymiadau i wneud gwaith yn fwy hylaw:

- oriau ychwanegol â thâl/cynyddu oriau gwaith;
- llai o weinyddu/gwaith papur/cyfarfodydd;
- cyflogi mwy o staff;
- mwy o gefnogaeth i staff;
- mynediad at y dechnoleg briodol i staff/myfyrwyr.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 580

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 62

Mewn ymateb i:

Cwestiwn 4: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eich bod yn gallu rheoli eich baich gwaith presennol yn effeithiol o fewn eich oriau gwaith dan gontract? (dewiswch un) (pan ddewiswyd naill ai anghytuno neu anghytuno'n gryf, gofynnwyd y cwestiwn testun agored "A oes gennych awgrymiadau ymarferol ar y newidiadau a fyddai'n helpu i wneud eich baich gwaith yn fwy hylaw?"

Dadansoddiad o sylwadau ynghylch sut i wneud baich gwaith yn fwy hylaw:

1.1. Oriau ychwanegol â thâl/cynyddu oriau gwaith (16 o sylwadau)

- Teimlai gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach fod angen oriau ychwanegol er mwyn cwblhau tasgau gofynnol y rôl.

Enghreifftiau

Yn syml, mae angen oriau ychwanegol arnom ar gyfer y swydd, er mwyn cefnogi'r athrawon fel y mae arnynt angen cael eu cefnogi.

Cynyddu oriau dan gontract i gynnwys datblygiad personol ym maes addysg.

Cynyddu oriau'r contract i adlewyrchu'r swydd. Mae Cynorthwyywyr Cymorth Dysgu ar yr oriau lleiaf oherwydd o edrych o'r tu allan, mae'n ymddangos mai dim ond cefnogi yn yr ystafell ddosbarth rydym ni, ac nid dyna fel y mae hi o gwbl.

Ymestyn fy oriau dan gyflogaeth.

1.2. Llai o weinyddu/gwaith papur/cyfarfodydd (15 o sylwadau)

- Dywedwyd bod gweinyddu yn ffactor o ran y cynnydd mewn baich gwaith a, phe bai llai ohono, byddai hyn yn helpu i wneud y baich gwaith yn fwy hylaw.

Enghreifftiau

Llai o waith papur diangen.

Mwy o strwythur, llai o ymarferion ticio blychau.

Llai o weinyddu i Reolwyr. Cawsant wared ar ein Cydlynnydd a bwrw'r gwaith arnom ni.

Mwy o oriau neu lai o waith papur.

1.3. Cyflogi mwy o staff (12 o sylwadau)

- Awgrymwyd staff ychwanegol er mwyn helpu i rannu'r baich gwaith presennol.

Enghreifftiau

Staff ychwanegol ynghyd â systemau awtomataidd.

Mwy o staff i gefnogi'r rôl.

Cyflogi mwy o staff.

Cyflogi mwy o bobl yn fy rôl i.....heb unrhyw awgrym am gyflogi person arall. Mae hyn yn arwain at ledaenu mwy o waith ar draws y tîm.

1.4. Mwy o gefnogaeth i staff (11 o sylwadau)

- Teimlai rhai nad oedd y gefnogaeth bresennol a gynigiwyd yn ddigon a bod angen rhagor i helpu gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach.

Enghreifftiau

Rheolwr llinell mwy cefnogol.

Mwy o gefnogaeth 1:1.

Mae ar yr adran angen darlithydd â llwyth rhannol, gydag oriau dros ben i ganiatáu am gyflenwi dros gyfnod gwyliau a salwch.

1.5. Mynediad at y dechnoleg briodol i'r holl staff/myfyrwyr (6 o sylwadau)

- Os byddai gan bawb y dechnoleg briodol, byddai hyn yn dileu'r problemau technoleg sy'n codi, sy'n cymryd llawer o amser.

Enghreifftiau

Cyfleoedd â thâl i gynllunio, trosi adnoddau at ddiben dysgu digidol.

Mae gweithio o bell wedi creu llawer o broblemau gyda'r dysgwyr, a sut y gallant ddysgu.

Themâu cyffredinol o'r cwestiwn testun agored pam mae'r baich gwaith wedi cynyddu oherwydd dysgu cyfunol:

Rhesymau gwaith ychwanegol

- dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt (un ac un/bugeiliol/lles);
- heriau gweithio o bell;
- TGCh – a yw cyfarpar ar gael / dibynadwyedd systemau TG;
- amser annigonol i gyflawni paratoi, marcio, adborth a myfyrio;
- gofynion gweinyddu a/neu waith papur;
- nid yw'r baich gwaith / tasgau wedi'u dosbarthu'n deg.

Awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella

Oherwydd dim ond nifer bach yn unig o awgrymiadau a ddarparwyd o fewn y cwestiwn hwn, ni fu'n bosibl sefydlu themâu amlwg. Mae'r isod yn amlinellu rhai enghreifftiau a ddarparwyd, serch hynny.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 580

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 164

Mewn ymateb i:

7. Sut mae darparu dysgu cyfunol / dysgu o bell yn ystod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar eich baich gwaith? Os yw "wedi cynyddu ychydig" neu "wedi cynyddu'n sylweddol", gofynnwyd y cwestiwn testun agored canlynol "Os yw eich baich gwaith wedi cynyddu ychydig neu'n sylweddol, esboniwch beth fu'r gwaith ychwanegol ac unrhyw awgrymiadau ymarferol ar sut y gellid gwella hyn"

Dadansoddiad o sylwadau ynghylch pam mae baich gwaith wedi cynyddu:

1.6. Dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt (un ac un/bugeiliol/lles) (53 o sylwadau)

- Teimlwyd bod dysgu cyfunol wedi arwain at fwy o gymorth gan weithwyr cymorth dysgu addysg bellach;
- Mae rhai myfyrwyr yn cael ei chael hi'n anodd ymgysylltu, neu'n cael problemau lles, sydd wedi arwain at gynydd yn y baich gwaith.

Enghreifftiau

Mae'n cymryd mwy o amser o lawer i esbonio gwaith i fyfyrwyr oherwydd maen nhw'n rhy hamddenol o lawer ac yn gwrthod cydymffurfio o ganlyniad i fod gartref.

Er bod rhai dysgwyr wedi addasu i ddysgu ar-lein, i eraill a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd yn y dosbarth – mae wedi achosi heriau ychwanegol o ran gallu gofyn am gymorth a'i gael yn y fan a'r lle. Mae angen amser a dyfalbarhad i ddangos gofal a phryder tuag at ddysgwyr a'u galluogi nhw i reoli'u hamser yn well a chymryd rheolaeth ar eu dysgu'u hunain. Mae gweithio gyda nhw ar hyn wedi bod yn fuddiol iawn.

Rwy'n cael negeseuon e-bost byth a hefyd sy'n dweud nad yw dysgwyr yn mynd at eu dosbarthiadau ar-lein ac mae hyn yn golygu bod rhaid i mi fynd ar eu hôl nhw a'u hannog nhw i ymgysylltu, fel y gallant gyflawni'u cymhwyster.

1.7. Heriau dysgu o bell (37 o sylwadau)

- Mae proses dysgu o bell wedi cynyddu'r baich gwaith.
- Mae hyn o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, er enghraifft mae cyfathrebu'n cael ei wneud ar-lein erbyn hyn yn hytrach nag wyneb yn wyneb (sy'n cymryd mwy o amser) a dysgu sut i gefnogi'n effeithiol mewn amgylchedd dysgu cyfunol.

Enghreifftiau

Mae gweithio o bell wedi creu llawer o broblemau gyda'r dysgwyr, a sut y gallant ddysgu.

Nid yw sgysiau gyda staff yn cymryd mwy na 3 munud yn y coridor, ond negeseuon e-bost niferus... Mae llawer o staff wedi cyrraedd pen eu tennyn wrth geisio cefnogi ein dysgwyr, ynghyd â dysgu'u plant eu hunain gartref, pryderon teuluol a dyletswyddau o ddydd i ddydd.

Mae'n cymryd cymaint hirach i ysgrifennu cyfarwyddiadau clir yn hytrach na dim ond siarad â myfyriwr.

Nid yn unig yr amser yr oedd ei angen i ddylunio a chreu adnoddau newydd, ond y llw o hyfforddiant y bu'n rhaid i ni ei roi i staff eraill ac i ddysgwyr. Roedd y diffyg gwybodaeth ddigidol a chynefindra ag adnoddau ar-lein yn anhygoel.

1.8. TGCh – a yw cyfarpar ar gael / dibynadwyedd systemau TG (29 o sylwadau)

- Mae problemau technoleg wedi golygu bod gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach yn gorfod datrys y problemau hyn, gan eu tynnu rhag eu baich gwaith presennol.

Enghreifftiau

Mae'r dechnoleg yn y coleg yn druenus. Nid yw'r Wifi wedi gweithio ers wythnosau - ac mae sawl man yn y coleg lle nad oes signal ar gael fel arfer. Mae'r ffactor hwn yn cynyddu'r baich gwaith, oherwydd rydych chi'n rhoi cynnig ar wneud tasg ar sawl achlysur cyn y bydd wedi'i gwblhau.

Fel Cynorthwyyr Cymorth Dysgu, nid oes hawl gennym i gael papur nodiadau pan fyddwn ni'n gweithio gartref. Credaf fod hyn yn annheg, gan fod Cynorthwyyr Cymorth Dysgu'n defnyddio papur yn gyson i gynhyrchu nodiadau/nodiadau dysgwyr, rhestr o waith i'w gwblhau, a geiriau allweddol/gwybodaeth sy'n bwysig yn ôl y Darlithydd.

1.9. Amser annigonol i gyflawni paratoi, marcio, adborth a myfyrio (29 o sylwadau)

- Mae gwaith paratoi wedi cynyddu oherwydd bod angen i adnoddau fod yn gydnaws ar gyfer dysgu cyfunol;
- Mae angen mwy o gynllunio ar bynciau ymarferol ar gyfer dysgu cyfunol, oherwydd caiff y pynciau hyn eu haddysgu a'u cefnogi wyneb yn wyneb fel arfer;
- Mae marcio'n cymryd mwy o amser ar-lein hefyd.

Enghreifftiau

Mae marcio ar-lein yn cymryd mwy o amser – mae angen ymestyn y terfyn amser.

Mae paratoi deunyddiau dysgu ar-lein wedi cynyddu'n enfawr.

Nawr rwy'n treulio'r rhan fwyaf o ddiwrnodau'n paratoi gwaith ac yn marcio gwaith a anfonwyd gan ddysgwyr.

Cyflwyno sesiynau ar-lein, ond cynnydd hefyd mewn marcio'r gwaith yn ddigidol.

Mae fy rôl yn fwy ymarferol o lawer yn y lleoliad, felly mae cynllunio gweithgareddau ar gyfer dysgu ar-lein yn cymryd mwyn o amser nag y byddai pe bawn i yn y gwaith ei hun.

1.10. Gofynion gweinyddu a / neu waith papur (17 o sylwadau)

- Teimlai rhai bod dysgu cyfunol wedi cynyddu faint o weinyddu a gwaith papur sydd;
- Mae hyn oherwydd bod mwy o negeseuon e-bost a mwy o waith llenwi ffurflenni ar gyfer tasgau fel monitro ymgysylltiad.

Enghreifftiau

Mwy o waith papur i'w gwblhau.

Mwy fyth o waith papur i'w gwblhau ac nid oes gennyf amser ar ei gyfer.

Treuliwyd cyfran uwch o'm hamser yn teipio negeseuon e-bost.

Rwy'n cwblhau mwy o waith gweinyddol pan fydda' i'n gweithio gartref. Rwy'n cofnodi pob awr o'm diwrnod – nid wyf yn gwneud hynny yn y gwaith.

Mae cefnogi dysgwyr ar-lein yn gofyn am fwy o weinyddu er mwyn trefnu a chynnal sesiynau.

1.11. Nid yw'r baich gwaith / tasgau wedi'u dosbarthu'n deg (7 o sylwadau)

- Codwyd rhai sylwadau am dasgau yr oedd angen i weithiwr cymorth dysgu addysg bellach eu cynnal bellach o ganlyniad i ddysgu cyfunol, sydd wedi ychwanegu at lwyth gwaith pobl sydd eisoes yn gweithio'u horiau'n llawn;
- Teimlwyd y dylai rhai tasgau naill ai gael eu gohirio neu eu hailddosbarthu i feysydd eraill, oherwydd bod dysgu cyfunol wedi cynyddu'r baich gwaith.

Enghreifftiau

Rwy' wedi bod yn y gwaith drwy'r dydd ac mae disgwyl o hyd i mi wneud DPP fel yr holl Gynorthwyr Dysgu sydd ddim yn y gwaith.

Disgwylir i ni gysylltu â myfyrwyr â risg a gweithio gyda nhw, yn ychwanegol at ein baich gwaith arferol.

Awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella a wnaed gan ymatebwyr:

Oherwydd dim ond nifer bach yn unig o awgrymiadau a ddarparwyd o fewn y cwestiwn hwn, ni fu'n bosibl sefydlu themâu amlwg. Mae'r isod yn amlinellu rhai enghreifftiau a ddarparwyd, serch hynny:

Enghreifftiau

Dydw i ddim yn gwybod sut y gall hyn gael ei wella, heblaw recordio popeth a wnawn a llwytho enghreifftiau i'n hystafell ddosbarth. Cael dysgwyr i recordio'u gweithgareddau ymarferol a'u llwytho i'r ystafell ddosbarth.

Gellid ei wella trwy fwy o amser i ffwrdd o'r sgrin. Bob dydd bron, mae sesiynau gefn wrth gefn ar-lein, o flaen sgrin, heb seibiannau rheolaidd.

Allgofnodi pan fyddaf wedi cwblhau fy oriau dan gontract (gan adael i ddysgwyr wybod pryd byddaf ar gael).

Dylai amser ar gyfer lles dysgwyr gael ei ychwanegu at amserlen tiwtoriaid, ochr yn ochr ag oriau addysgu a gweinyddu.

Cael mwy o amser i wneud popeth y mae disgwyl iddo gael ei wneud o fewn oriau gwaith.

Byddai mwy o gymorth gan reolwyr a gwell cyfathrebu ynghylch beth mae pob aelod unigol o staff yn ei wneud mewn gwirionedd o ran ei lwyth gwaith wedi bod yn welliannau.

Rydym wrthi'n datblygu gwell taflen asesu i'w defnyddio cyn cyfarfod â dysgwyr, fel bod y broses gychwynnol yn cymryd llai o amser, ynghyd â datblygu a rhannu adnoddau ac arfer da.

2. Dysgu Proffesiynol

Themâu cyffredinol o sylwadau testun agored dysgu proffesiynol:

- sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol;
- gwybodaeth am y pwnc a/neu'r cyfnod;
- iechyd meddwl a lles;
- hyfforddi a mentora;
- gwella sgiliau Cymraeg;
- rheoli ymddygiad a chymorth ymddygiad.

Cyfanswm yr ymatebion: 580

Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 277

Mewn ymateb i:

Cwestiwn 15. Ym mha feysydd y byddech yn croesawu datblygiad pellach i'ch helpu i fod yn weithiwr addysg proffesiynol mwy effeithiol? (rhestrwch hyd at dri maes)

Dadansoddiad o sylwadau sy'n ymwneud â'r prif themâu dysgu proffesiynol

2.1. sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol / cyfunol (86 o sylwadau)

- hyfforddiant TGCh/Digidol oedd yr awgrym mwyaf poblogaidd o ran dysgu proffesiynol. Teimlwyd y byddai hyfforddiant ychwanegol yn y maes hwn yn helpu i gefnogi dysgu cyfunol.

Enghreifftiau

Annog sgiliau a hyfforddiant TG pellach.

Hyfforddiant digidol rheolaidd er mwyn cadw i fyny â'r platfformau digidol a ddefnyddir yn y coleg. Canolfan hyfforddiant ar becyn Google, y gallwch fynd ato wrth eich pwysau.

Er fy mod i'n teimlo'n hyderus iawn nawr yn cefnogi myfyrwyr ar-lein, teimlaf y byddai'n fuddiol o hyd cael hyfforddiant penodol ar hyn a gweld a oes ffyrdd mwy effeithlon o gefnogi ar-lein. Hyfforddiant penodol ar sut i ddelio ag ymddygiad heriol yn effeithiol.

2.2. Gwybodaeth am y pwnc a/neu'r cyfnod (62 o sylwadau)

- Roedd dysgu proffesiynol yn y pwnc a gefnogir yn awgrym poblogaidd hefyd, ynghyd â hyfforddiant penodol ynghylch y rôl cymorth dysgu addysg bellach yn eu maes pwnc.

Enghreifftiau

Mwy o hyfforddiant technegol perthnasol a phrofiad perthnasol i ddiwydiant.

Mwy o ddatblygiad proffesiynol sy'n benodol i gynorthwywyr cymorth dysgu.

Hyfforddiant perthnasol i'm rôl, rwy'n sylwi fy mod i'n cwblhau hyfforddiant ar gyfer swyddi gradd uwch.

Hyfforddiant penodol i gynorthwywyr cymorth dysgu. Nid yw llawer o'r hyfforddiant yn ddefnyddiol i'n rôl.

2.3. Iechyd meddwl a lles (32 o sylwadau)

- Awgrymwyd hefyd bod hyfforddiant ychwanegol ar iechyd meddwl a lles yn faes dysgu proffesiynol er mwyn cefnogi staff a chydweithwyr.

Enghreifftiau

Mwy o hyfforddiant ar gefnogi myfyrwyr sydd ag anawsterau iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth fanylach o gamddefnyddio sylweddau.

Hoffwn ail-wneud cwrs cymorth cyntaf iechyd meddwl a dysgu mwy am iechyd meddwl a'r glasoed.

Iechyd Meddwl a Lles i Staff.

Mwy o hyfforddiant ar iechyd meddwl.

2.4. Hyfforddi a mentora (18 o sylwadau)

- Awgrymwyd hyfforddiant mwy penodol ynghylch anogaeth a mentora hefyd.

Enghreifftiau

Hyfforddi a mentora.

Annog Dysgwyr.

2.5. Gwella'r Gymraeg (12 o sylwadau)

- Dywedodd rhai gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach eu bod am wella'u sgiliau Cymraeg.

Enghreifftiau

Dysgu'r Gymraeg yn barhaus.

Y Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg.

Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth i hybu'r niferoedd sy'n gallu ei siarad a chyrraedd targed y Filiwn.

2.6. Rheoli ymddygiad a chymorth ymddygiad (11 o sylwadau)

- Roedd delio ag ymddygiad heriol yn effeithiol hefyd yn thema o ran dysgu proffesiynol a ddymunwyd.

Enghreifftiau

Mwy o hyfforddiant ar reoli ymddygiad a chwricwlwm gwahanol/dulliau addysgu/cymorth gwahanol.

Delio ag ymddygiad oriog.

Hyfforddiant penodol ar sut i ddelio ag ymddygiad heriol yn effeithiol.

Rheoli Ymddygiad a ddarperir gan ffynhonnell allanol, nid mewnol.

Hoffwn gael hyfforddiant ar reoli ymddygiad.